## YR ATODLEN

### Diwygio Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003

**Diwygio Atodlen 2 (Symudiadau i safleoedd nad ydynt yn sbarduno'r cyfnod segur)**

**2.**—(1) Mae Atodlen 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Cyn paragraff 1 mewnosoder—

"**Symud gwartheg, defaid a geifr**

**Z1.** Gwartheg, defaid a geifr sy'n cyrraedd y safle ar yr amod y cânt eu cadw mewn uned gwarantin am 6 diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd."

(3) Yn y pennawd cyn paragraff 1 yn lle "Orchymyn Cynulliadau Anifeiliaid (Cymru) 2003", ac ym mharagraff 1, yn lle "Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2003" rhodder "Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010"(**1**).

(4) Yn y pennawd cyn paragraff 3, yn lle "Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002" rhodder "Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011".

(5) Ym mharagraff 3, yn lle "erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002" rhodder "erthygl 21 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011".

(6) Ym mharagraff 4—

(a) yn is-baragraffau (1) a (2), yn lle "erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002" rhodder "erthygl 21 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011";

(b) yn is-baragraff (1)(d), yn lle "llofnodi datganiad yn dweud y bwriedir defnyddio'r mochyn i fagu ar y safle hwnnw a'i fod yn anfon y datganiad i'r awdurdod lleol yn ddi-oed" rhodder "cyflwyno, yn unol â thelerau'r drwydded y caiff y mochyn ei symud oddi tani, ac yn ddi-oed, ddatganiad yn dweud y bwriedir defnyddio'r mochyn ar gyfer bridio ar y safle hwnnw"; ac

(c) yn is-baragraff (2)(b)—

(i) yn lle "anfon y" rhowch "cyflwyno'r", a

(ii) hepgorer "uchod at yr awdurdod lleol".

(7) Yn lle paragraff 5 rhodder—

"**Dychwelyd moch, gwartheg, defaid neu eifr o sioe neu arddangosfa**

**5.**—(1) Dychwelyd gwartheg, defaid neu eifr o sioe neu arddangosfa i'r safle y traddodwyd hwy ohono i'r sioe neu'r arddangosfa honno ar yr amod bod yr anifeiliaid yn cael eu cadw mewn uned gwarantin am 6 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd.

(2) Dychwelyd moch o sioe neu arddangosfa i'r safle y traddodwyd hwy ohono i'r sioe neu'r arddangosfa honno ar yr amod bod yr anifeiliaid yn cael eu hynysu mewn cyfleuster sydd wedi ei gymeradwyo i'r pwrpas gan arolygydd milfeddygol am 20 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd."

(8) Hepgorer paragraff 6.

(9) Hepgorer paragraff 7.

---

(**1**) O.S. 2010/900 (Cy. 93).

(10) Hepgorer paragraff 8.

(11) Yn lle paragraff 9 rhodder—

"**9.** Gwartheg, defaid neu eifr sy'n cyrraedd yn ôl o ganolfan ffrwythloni artiffisial ar yr amod eu bod yn cael eu cadw mewn uned gwarantin am 6 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd."

(12) Hepgorer paragraff 11.

(13) Yn lle paragraff 15 rhodder—

"**Cyrraedd ar ôl triniaeth filfeddygol, etc.**

**15.** Defaid, geifr, gwartheg neu foch sy'n cyrraedd yn ôl i'r safle hwnnw o fan lle y rhoddir triniaeth filfeddygol neu unrhyw epil y maent wedi esgor arnynt tra'r oeddent yno ar yr amod—

(a) yn achos moch, eu bod wedi eu hynysu oddi wrth bob anifail arall am 20 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd; a

(b) yn achos defaid, geifr a gwartheg, pan gafodd yr anifeiliaid hynny eu cadw mewn uned gwarantin cyn eu symud i fan lle y rhoddir triniaeth filfeddygol, eu bod yn cael eu cadw mewn uned gwarantin am 6 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd minws nifer y diwrnodau y cadwyd yr anifail mewn uned gwarantin cyn ei symud i gael triniaeth."